**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0089/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror fel dilyniant i'r sesiwn ETRA ar 5 Chwefror, ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r camau gweithredu a'r gofynion arfaethedig i wneud y Cynllun yn fwy hygyrch a rheoladwy fel y nodir yn yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2024. Mae'n dal yn fwriad gennyf i gyhoeddi'r Cynllun terfynol cyn gynted â phosibl yr haf hwn unwaith y bydd y cam presennol o waith gyda'r Grwpiau Ford Gron Gweinidogol a Swyddogion wedi dod i ben, ac mae gennym ganlyniadau'r dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith.

Mae'r dadansoddiad ar y gweill ar hyn o bryd, a bydd gennym yr allbynnau yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Ni fydd Gweinidogion yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol nes bod gennym y dystiolaeth hon, ac mae wedi ei drafod gyda'r Bwrdd Crwn, cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno yn 2026.

Unwaith y bydd penderfyniadau terfynol y Cynllun wedi'u gwneud a dyluniad terfynol y Cynllun wedi'i gyhoeddi, byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ymgysylltu â ffermwyr. Bydd hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth a chefnogaeth i ffermwyr am gynnwys y Cynllun a'r cyfleoedd o Gamau Dewisol a Chydweithredol sydd ar gael iddynt. Rydym yn bwriadu i hyn gynnwys digwyddiadau personol a gynhelir ledled Cymru.

Rwy'n rhannu eich barn ar bwysigrwydd darparu digon o gyllid aml-flwyddyn i gyflwyno Cynllun llwyddiannus. Rydyn ni eisiau gwneud hyn yn iawn gyda'r bwriad o gyflawni newid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd a ffurfiwyd yn ddiweddar ar dargedau lefel cynllun SFS ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd yn ogystal â datblygu'r cynllun plannu coed a chreu gwrychoedd a fydd yn rhan o Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'r wybodaeth a rennir gyda'r Grŵp yn cynnwys yr arwynebedd tir yn yr ardal sensitifrwydd isel ar gyfer y cynllun Creu Coetir Grantiau Bach: 995,243 hectar sy'n cynrychioli 48% o dir yng Nghymru.  Mae'r grŵp yn ystyried sut y gellir dylunio'r cynllun plannu coed a chreu gwrychoedd mewn ffordd sy'n galluogi ffermwyr i gymryd y camau cadarnhaol hyn mewn ardaloedd a fydd o fudd i'w busnes fferm a'r amgylchedd ehangach.

Yn ogystal ag Adroddiad Cryno y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf, mae'r adroddiad technegol llawn bellach yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi.  Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y broses o gasglu'r dystiolaeth a'r dadansoddiad dilynol. Disgwylir i'r adroddiad llawn gael ei gyhoeddi tua diwedd mis Ebrill, unwaith y bydd y gwaith cyfieithu a dylunio wedi'i gwblhau.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gynllunio i ddarparu cefnogaeth sylweddol a hirdymor i greu diwydiant amaethyddol gwydn a chynaliadwy yng Nghymru gyda chynhyrchu bwyd o safon uchel yn ganolog iddo. Mae hon yn weledigaeth yr wyf yn siŵr ein bod ni i gyd yn ei chydnabod ac y byddwn yn cytuno â hi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs